**Y Gwir Anrh/ Rt Hon Vaughan Gething AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Mehefin 2024

Annwyl Mike,

**Cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Denmarc ar Gyfranogiad Gwladolion y Gwledydd Hyn mewn Rhai Etholiadau os ydynt yn Preswylio yn Nhiriogaeth un o'r Lleill**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i lythyr eich rhagflaenydd, dyddiedig 16 Mai, ynglŷn â'r Cytuniad uchod ("Cytundeb y DU-Denmarc").

Roedd llythyr eich rhagflaenydd yn ceisio gwybodaeth am fater a godwyd gan y cyn-Brif Weinidog, ac a fyddai gan y Senedd y pŵer i dynnu'r hawl i bleidleisio oddi ar ddinasyddion gwledydd sydd â chytundebau cilyddol pe bai'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol. Yn benodol, gofynnodd y llythyr:

- a yw'r mater a godwyd gan y cyn-Brif Weinidog wedi cael ei ddatrys;

- os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio unrhyw ddulliau deddfwriaethol, megis cyflwyno diwygiadau i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), i ofyn am ei benderfyniad;

- a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio deddfwriaeth frys i wrthdroi unrhyw gamau deddfwriaethol posibl gan Lywodraeth y DU i ddileu neu gyfyngu ar hawl gwladolion o Aelod-wladwriaeth benodol o'r UE i sefyll a phleidleisio mewn unrhyw etholiadau lleol yn y DU, er mwyn galluogi'r dinasyddion hynny i barhau i gael eu rhyddfreinio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Nid yw'r sefyllfa wedi'i datrys yn llawn. Serch hynny, gan ystyried polisi cyfredol Llywodraeth Cymru a chefnogaeth ar draws y Senedd i sicrhau hawl eang i bleidleisio mewn etholiadau Cymreig, nid yw'n fater yr ydym wedi rhoi sylw brys iddo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pe bai'r sefyllfa bosibl yn codi yn y dyfodol lle y byddai Llywodraeth Cymru neu Senedd Cymru yn dymuno diwygio'r hawl i bleidleisio mewn modd a fyddai'n fwy cyfyngol ac na fyddai felly yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r cytundebau hyn, mae prosesau ar waith sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU drafod newidiadau i'r cytundebau rhyngwladol perthnasol ar ein rhan. Pe bai mater o'r fath yn codi, byddem yn disgwyl i drafodaethau cadarnhaol gael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn dod i ddatrysiad derbyniol.

Mae Cytundeb y DU-Denmarc yn cyd-fynd yn llawn ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad yn cadw eu hawl i bleidleisio. Yn ôl y gyfraith, mae ymrwymo i rwymedigaethau rhyngwladol sy'n rhwymo'r DU yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae cadw at rwymedigaethau rhyngwladol penodol, a'u rhoi ar waith, yn faterion nas cedwir yn ôl. Byddwn felly yn parhau i'w gwneud yn glir i Lywodraeth y DU ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n llawn at drafod cytundebau o'r fath, a bod Llywodraeth Cymru yn cael digon o gyfle i drafod â'r Senedd ymlaen llaw.

Gan ystyried cefnogaeth barhaus y Senedd i'r sefyllfa bresennol, nid ydym wedi ceisio unrhyw ddulliau deddfwriaethol i fynd i'r afael â'r materion posibl hyn, ond pe bai sefyllfa fel yr un a ddisgrifir uchod yn codi, byddem yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael.

Mae gennym berthynas dda â Llywodraeth y DU o ran trafod materion etholiadol. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio deddfu i ddileu neu gyfyngu ar hawl dinasyddion yr UE i bleidleisio mewn etholiadau lleol Cymreig. Byddem yn gwrthwynebu unrhyw ymgais o'r fath a byddem yn gweithio gyda'r Senedd i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i ddelio â'r sefyllfa.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**VAUGHAN GETHING**